OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2022 Rhif 372 (Cy. 92)

# LLYWODRAETH LEOL, CYMRU

## Rheoliadau Cyd-bwyllgorau Corfforedig (Cyffredinol) (Cymru) 2022

| | |
|---|---|
| *Gwnaed - - - -* | *23 Mawrth 2022* |
| *Yn dod i rym* | |
| *Rheoliad 3(8)* | *6 Mai 2022* |
| *Y gweddill* | *25 Mawrth 2022* |

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adrannau 80(1), 83, 84 a 174 o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021(**1**), yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn.

Yn unol ag adrannau 80(2)(c) a 82(2) a (3)(a) a (d) o'r Ddeddf honno, mae Gweinidogion Cymru wedi ymgynghori â'r personau hynny y maent yn ystyried eu bod yn briodol ar ddrafft o'r Rheoliadau, ac wedi rhoi hysbysiad o'u bwriad i wneud y Rheoliadau i'r prif gynghorau yn ardaloedd y cyd-bwyllgorau corfforedig ac i'r cyd-bwyllgorau corfforedig.

Gosodwyd drafft o'r offeryn hwn gerbron Senedd Cymru ac fe'i cymeradwywyd ganddi drwy benderfyniad yn unol ag adran 174(4) a (5) o'r Ddeddf honno.

(**1**) 2021 dsc 1.